YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2013

PRESENNOL:	Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Ann Griffith, John Griffith, Victor Hughes, Richard O. Jones, Nicola Roberts
WRTH LAW:	Swyddog Cynllunio (MD) Swyddog Pwyllgor (MEH) Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SC)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, Ken Hughes
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Llinos M Huws (Aelod Lleol)

---

1. **38C219C – Cais llawn i godi un tyrbin gwynt 10KW gydag uchder hwb o 15m, rotor sydd 9.7m ar ei draws a hyd at 19.5m i flaen uchaf y llafn yn Cae Mawr, Llanfechell.**

   Yn ei gyfarfod ar 4 Medi 2013, penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ymweld â'r safle fel y gallai'r Aelodau fod yn fodlon ynglŷn ag effaith bosibl y cynllun ar y dirwedd a'r effaith weledol ar yr anheddau sydd gerllaw.

   Edrychodd yr aelodau ar y safle lle bwriedir lleoli'r tyrbin. Edrychodd yr Aelodau hefyd ar y cynlluniau o'r safle. Gofynnodd yr Aelodau pa mor agos oedd yr anheddau gerllaw a dywedodd y Swyddog Cynllunio bod yr eiddo agosaf 260 o fetrau o'r safle arfaethedig. Byddai modd gweld y safle a'r eiddo sydd ar yr A5025. Edrychwyd ar y safle hefyd o leoliadau gwahanol yn y cyffiniau.

   Awgrymodd y Cynghorydd y dylid cael persbectif gwahanol drwy ymweld â thyrbin tebyg rhwng Llanfairynghornwy a Llanrhuddlad. Penderfynwyd ymweld â'r safle, tyrbin bychan gydag uchder hwb o 10 m.

Y CYNGHORYDD W T HUGHES
CADEIRYDD